Cartrefi Conwy
Creu cymunedau i fod yn falch ohonynt
Creating communities to be proud of

We Do The Right Thing | We Lead By Example | We Are Stronger Together

## Proffil Swydd

# Swyddog Gwerth Cymdeithasol a Phartneriaeth

## Yn adrodd i:

Cyfarwyddwr Partneriaethau a Gwerth Cymdeithasol

## Tîm:

Creu Dyfodol

## Lleoliad:

Morfa Gele

## Cyflog, Oriau a Gwyliau:

**Cyflog hyd at £37,096**
Llawn-amser, 37 awr. Dydd Llun i ddydd Gwener - gall gynnwys rhywfaint o weithio ar benwythnos a chyda'r nos.

## Pwrpas y Swydd:

Mae'r Swyddog Gwerth Cymdeithasol a Phartneriaethau yn chwarae rhan ganolog wrth gyflawni pwrpas Cartrefi Conwy: darparu cartrefi diogel wrth greu cyfleoedd i'n tenantiaid ffynnu. Bydd y swydd hon yn arwain ar ymgorffori gwerth cymdeithasol ar draws ein cadwyn gyflenwi a'n timau mewnol, gan sicrhau bod pob partneriaeth a phrosiect yn cyfrannu'n ystyrlon i'n cymunedau. Trwy gydweithio, creadigrwydd a mesur effaith, bydd y swydd hon yn ein cynorthwyo i adrodd stori ein heffaith gymdeithasol a gyrru newid trawsnewidiol.

Mae'r swydd hon yn cefnogi cyflawni ein Cynllun Corfforaethol Gyda'n Gilydd 2025-2028 yn uniongyrchol, gan gyfrannu at themâu strategol Ein Pobl, Ein Eiddo, a'n Partneriaethau. Bydd yn ein helpu i adeiladu perthnasoedd mewnol ac allanol cryfach, ymhelaethu ar lais tenantiaid, a darparu gwerth trwy weithio ar y cyd.

Mae'r Swyddog Gwerth Cymdeithasol a Phartneriaethau yn ymwneud â chyflawni yn ymarferol a mesur effaith.

## Gwahanol Agweddau'r Swydd:

Gweithio o fewn y tîm Creu Dyfodol a chydweithio â thimau ar draws y grŵp a phartneriaid y gadwyn gyflenwi i sicrhau cyfraniadau ariannol tuag at fentrau gwerth cymdeithasol, gan sicrhau bod targedau ariannol y cytunwyd arnynt yn cael eu cyflawni trwy incwm Budd Cymunedol i gyflawni prosiectau sy'n creu canlyniadau diriaethol i denantiaid a chymunedau.



ARMED FORCES COVENANT
disability confident EMPLOYER

## Ffocws a chyfrifoldebau allweddol:

**Gweithio gyda'r Gadwyn Gyflenwi a busnesau bach a chanolig lleol**

- Adeiladu perthnasoedd ysbrydoledig a chydweithredol gyda phartneriaid yn y gadwyn gyflenwi i gyflawni prosiectau cymunedol trwy gymorth ariannol ac mewn nwyddau.
- Rheoli perthnasoedd cyflenwyr ac olrhain cyflawni canlyniadau gwerth cymdeithasol.
- Cydweithio â'r Partner Caffael i ymgorffori cymalau gwerth cymdeithasol ym mhob contract newydd a monitro eu cyflawniad a'u heffaith.
- Sicrhau lefelau cytunedig o gyfraniadau ariannol gan bartneriaid yn y gadwyn gyflenwi i gyrraedd targedau incwm gwerth cymdeithasol blynyddol ac adrodd ar gynnydd yn erbyn y targedau hyn.

**Gweithio gyda Chontractwyr ar ein Datblygiadau**

- Sicrhau bod contractwyr fframwaith yn cyflawni ymrwymiadau budd cymunedol.
- Adnabod a chyflawni mentrau cymunedol mewn meysydd o angen, mewn cydweithrediad â chydweithwyr sy'n ymwneud yn uniongyrchol â thenantiaid.
- Cydlynu gyda chontractwyr i sicrhau creu lleoliadau gwaith, rolau gwirfoddoli, a chyfleoedd cyflogaeth, ac yna trosglwyddo'r rhain i'r tîm Creu Dyfodol i'w cydweddu a'u llenwi
- Cydlynu ymweliadau a sesiynau safle addysgol gydag ysgolion a cholegau, gan ganolbwyntio ar lwybrau gyrfa a Merched mewn Adeiladu.

**Cydweithio Mewnol**

- Gweithio'n agos gyda thimau mewnol i drosi anghenion busnes yn fentrau effeithiol sy'n cael eu harwain gan gyflenwyr.
- Cefnogi adrannau Creu Menter i gwrdd â Dangosyddion Perfformiad Allweddol effaith gymdeithasol.
- Cyfathrebu diweddariadau rheolaidd ar y lleoliadau gwaith, rolau gwirfoddoli, a chyfleoedd cyflogaeth, a gynhyrchir gan gontractwyr ac adolygu cyflawni
- Cyflawni prosiectau cymunedol gan ddefnyddio incwm a gynhyrchir o ymrwymiadau contractwyr.
- Adnabod a chefnogi cyflawni prosiectau cymunedol lleol mewn partneriaeth â thimau mewnol.

**Cymorth Prosiect**

- Darparu cymorth ychwanegol i'r Rheolwr Prosiect a'r tîm Creu Dyfodol gyda chyflawni prosiectau sydd â mewnbwn cyflenwyr
- Darparu cefnogaeth i'r Rheolwr Prosiect a'r tîm Creu Dyfodol ar fentrau sy'n cael eu harwain gan gyflenwyr.

**Cyfathrebu**

- Cynhyrchu straeon pobl cymhellol i arddangos effaith gymunedol ac ysbrydoli ymgysylltu pellach.
- Cyfrannu at adroddiadau bwrdd chwarterol.
- Codi ymwybyddiaeth o'r gwerth cymdeithasol a grëir gan Cartrefi Conwy ar draws y sefydliad ac yn allanol.

**SROI (Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad)**

- Gweithredu ac ymgorffori meddalwedd addas i fesur effaith ehangach gwerth cymdeithasol ar draws y grŵp ac i gynhyrchu adroddiadau blynyddol
- Arwain ar ddatblygu adroddiadau ACLl a metrigau Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI) blynyddol.
- Mabwysiadu arfer gorau a meddalwedd addas i fesur a chyfathrebu effaith.
- Cynhyrchu adroddiadau effaith a metrigau SROI (Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad).



ARMED FORCES COVENANT
disability confident EMPLOYER

| **Cyffredinol** |
|---|
| • Mae'r disgrifiad swydd wedi'i gynllunio i ddarparu trosolwg cyffredinol o rôl, cyfrifoldebau ac atebolrwydd ac nid yw'n rhestru pob gofyniad.<br>• Disgwylir i weithwyr gyflawni cyfarwyddiadau rheoli rhesymol a dyletswyddau eraill sy'n gymesur â'r swydd sy'n gyfreithlon, moesegol, o fewn cwmpas eu dyletswyddau, ac yn gyson â pholisïau a gweithdrefnau'r cwmni. |

## Perthnasoedd Allweddol:

| **Allanol:**<br>Sefydliadau Cadwyn Gyflenwi, Cyrff Llywodraeth, Cynghorau Sir (yn wythnosol trwy gyfarfodydd, galwadau ac e-bost). |
|---|
| **Mewnol:**<br>Pob tîm ar draws y sefydliad, yn enwedig Cymdogaethau a Datblygu.<br>(yn ddyddiol trwy gyflwyniadau, e-bost, adroddiadau, cyfarfodydd wyneb yn wyneb). |

# Manylion y Person

## Gwybodaeth a Phrofiad:

| | Hanfodol/ Dymunol | Dull asesu? |
|---|---|---|
| Profiad o weithio mewn cymunedau, cadwyn gyflenwi a/neu fonitro a gwerthuso | H | Cais |
| Dealltwriaeth o werth cymdeithasol mewn perthynas â'r gadwyn gyflenwi a'r diwydiant adeiladu | Dymunol Iawn | Cais |
| Profiad o adeiladu perthnasoedd a dylanwadu ar bob lefel mewn amrywiaeth o sefydliadau | H | Cais |
| Gwybodaeth am ddulliau a thechnegau monitro a gwerthuso | D | Cais |

## Sgiliau:

| | Hanfodol/ Dymunol | Dull asesu? |
|---|---|---|
| Sgiliau trefnu a rheoli rhanddeiliaid cryf iawn gyda chydweithwyr a phartneriaid allanol | H | Cyfweliad |
| Sylw i fanylion | H | Prawf gallu |
| Arddangos y gallu i weithio i dargedau ariannol diffiniedig sy'n gysylltiedig â sicrhau cyfraniadau gwerth cymdeithasol gan bartneriaid yn y gadwyn gyflenwi a chyflawni'r targedau hynny. | H | Cyfweliad |
| Y gallu i ysbrydoli, a meithrin partneriaethau gwych gyda chyflenwyr | H | Cyfweliad |
| Sgiliau adrodd stori a chyfathrebu i rannu effaith a dylanwadu ar eraill | H | Cyfweliad |
| Y gallu i reoli prosiectau niferus ac i flaenoriaethu ffrydiau gwaith yn annibynnol | H | Cais / Cyfweliad |
| Ymddygiad proffesiynol a sgiliau pobl profedig | H | Cyfweliad |



ARMED FORCES COVENANT
disability confident EMPLOYER

| | | |
|---|---|---|
| Y gallu i ddefnyddio data gyda sgiliau ysgrifennu adroddiadau rhagorol er mwyn cynhyrchu adroddiadau allanol o ansawdd uchel | H | Cais / Cyfweliad |
| Y gallu i gyfathrebu'n rhugl ar lafar ac yn ysgrifenedig trwy gyfrwng y Saesneg | H | Cais / Cyfweliad |
| Y gallu i gyfathrebu'n rhugl ar lafar ac yn ysgrifenedig trwy gyfrwng y Gymraeg | Dymunol Iawn | Cais |
| Y gallu i yrru yn y DU gyda mynediad at eich cerbyd eich hun | H | Cais |

## Ymrwymiadau Cartrefi:

| | Hanfodol/ Dymunol | Aseswyd gan? |
|---|---|---|
| Rydym yn gwneud y peth iawn | H | Cyfweliad |
| Rydym yn arwain trwy esiampl | H | Cyfweliad |
| Rydym yn gryfach gyda'n gilydd | H | Cyfweliad |

**Datganiad Cyfle Cyfartal** Mae Cartrefi Conwy wedi ymrwymo i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth yn ein gweithgareddau ac yn croesawu ceisiadau gan bob ymgeisydd cymwys.

*Lle bo anabledd yn atal hyn, bydd y sefyllfa'n cael ei hadolygu gyda'r ymgeiswyr yn ystod y cyfweliad i weld a oes unrhyw addasiadau rhesymol y gellir eu gwneud ar gyfer y gofyniad hwn.

**Diogelu Data**: Bydd eich data personol yn cael ei drin yn unol â GDPR a Deddf Diogelu Data 2018. Byddwn yn defnyddio eich data at ddibenion recriwtio yn unig ac ni fyddwn yn ei rannu â thrydydd partïon heb eich caniatâd.



ARMED FORCES COVENANT
disability confident EMPLOYER